

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

### Diwygio'r Dull o Ardystio Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr a Chyflwyno Archwilwyr Meddygol

#### Cwestiynau ac Atebion i'r cyhoedd a rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'r ffordd y bydd system newydd arfaethedig o ardystio marwolaethau ac archwilwyr meddygol yn gweithredu yng Nghymru, ac ynglŷn â chasgliad o reoliadau drafft. Paratowyd y cwestiynau a'r atebion hyn i gefnogi'r ymgynghoriad

#### **Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd pan fydd rhywun yn marw?**

Yn dibynnu ar y ffordd y bydd y person wedi marw, mae yna ddwy sefyllfa bosibl.

##### Fel rheol:

Bydd marwolaeth y person yn ddisgwyliedig a bydd achos ei farwolaeth yn hysbys. Yn dilyn y farwolaeth, bydd y meddyg oedd yn gweini ar y claf yn cwblhau **tystysgrif feddygol o achos marwolaeth**. Bydd y teulu wedyn yn mynd â hon i swyddfa'r cofrestrydd i gofrestru'r farwolaeth. Os bydd y teulu'n dewis amlosgi'r corff, caiff tair ffurflen ychwanegol eu cwblhau gan dri meddyg, yn annibynnol ar ei gilydd, er mwyn sicrhau nad oes angen ymchwiliad pellach cyn yr amlosgiad.

##### Weithiau:

Os yw achos y farwolaeth yn anhysbys, yn dreisgar neu'n annaturiol, neu os oedd yr ymadawedig wedi bod yn y carchar neu'n cael ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yna caiff y farwolaeth ei chyfeirio i sylw'r crwner ar gyfer ymchwiliad. Efallai y bydd y crwner yn cynnal archwiliad post-mortem neu'n cynnal cwest cyn cwblhau'r gwaith papur, yn datgan achos y farwolaeth, fydd wedyn yn cael ei anfon yn syth at y cofrestrydd.

#### **Beth fydd yn newid?**

Yn y dyfodol, bydd y broses yn llawer mwy syml. Bydd **archwilydd meddygol annibynnol (AM)** yn edrych ar bob marwolaeth (ac eithrio'r rheiny y bydd crwner yn ymchwilio iddynt). Bydd yr AM yn trafod yr achos gyda'r meddyg fu yn gweini ac yn edrych ar nodiadau meddygol y person er mwyn sicrhau bod achos arfaethedig y farwolaeth yn gywir. Bydd yr AM hefyd yn trafod achos y farwolaeth gyda pherthnasau'r ymadawedig i weld a oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r farwolaeth. Os bydd gan y teulu unrhyw bryderon, bydd yr AM yn sicrhau bod y rhain yn derbyn sylw. Fel arall, bydd yr AM yn cadarnhau'r dystysgrif feddygol o achos marwolaeth, gan ganiatáu i'r teulu gofrestru'r farwolaeth. Ni fydd angen y tair ffurflen amlosgi sy'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd gan dri meddyg gwahanol oherwydd bod yr AM wedi cadarnhau achos y farwolaeth.

## **Pa gyfraith sy'n ymwneud ag archwilwyr meddygol?**

Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yw'r gyfraith sy'n darparu ar gyfer system o archwilwyr meddygol. At hynny, caiff rheoliadau eu sefydlu fydd yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr, Lloegr yn unig a Chymru yn unig, i gefnogi manylion y system.

## **Pryd bydd y system newydd o archwilwyr meddygol yn cychwyn?**

Y dyddiad sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer cychwyn y trefniadau newydd yng Nghymru a Lloegr yw mis **Ebrill 2018**.

## **Fydd system yr archwilwyr meddygol yn berthnasol i farwolaethau mewn ysbytai yn unig?**

Na – bydd yr archwilwyr meddygol yn ymdrin â'r holl farwolaethau, gan gynnwys y rheiny sy'n digwydd yn yr ysbyty, gartref, yn y gymuned, mewn hosbis ac yn y blaen. Y marwolaethau y bydd y crwner yn ymchwilio iddynt fydd yr unig rai fydd y tu allan i drefniadau'r archwilwyr meddygol.

## **Pam mae angen system o archwilwyr meddygol?**

Edrychodd **Ymchwiliad Shipman** ar weithredoedd Dr Harold Shipman a laddodd lawer o gleifion yn fwriadol ond a lwyddodd i guddio hyn drwy ardystio eu marwolaeth ei hun, heb unrhyw archwiliad pellach. O ganlyniad parhaodd ei weithredoedd heb eu darganfod am amser maith. Canfu'r Ymchwiliad fod y system o ardystio marwolaethau yn ddryslyd, yn gymhleth ac angen ei diwygio. Canfu hefyd nad oedd digon o gamau diogelu yn y system i atal drygioni. Yn fwy diweddar, gwnaeth **Ymchwiliad Francis** i Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Canol Swydd Stafford argymhellion ynghylch gwaith craffu annibynnol ar farwolaethau a'r angen i gynnwys y teuluoedd. Rhydd y system newydd sicrwydd – croes-archwilio effeithiol ar ardystiad y meddyg, a diogelwch rhag cuddio camymddygiad.

## **Beth fydd manteision y system newydd o archwilwyr meddygol?**

Bydd y brif fantais i deuluoedd sydd mewn profedigaeth, fydd yn cael y cysur o wybod bod person annibynnol yn edrych ar farwolaeth eu perthynas i sicrhau bod popeth fel y disgwylid. Gall teuluoedd siarad â'r archwilydd meddygol neu ei swyddog a thynnu ei sylw at unrhyw bryderon. Bydd y system newydd hefyd yn darparu gwybodaeth well a mwy cywir ynglŷn ag achosion marwolaeth. Bydd hyn o gymorth gyda chofrestru marwolaethau a gyda chynllunio gwasanaethau iechyd a gofal. Bydd hefyd yn gymorth i ddysgu a gwella.

## **Oes yna gynnig wedi ei roi ar y system hon yn barod?**

Oes, cynhaliwyd nifer o beilotiaid ar draws Cymru a Lloegr sydd wedi dangos bod modd rhedeg gwasanaeth archwilydd meddygol mewn ffordd amserol a chost effeithiol.

### **Fydd y system newydd yn achosi oedi cyn cofrestru marwolaethau neu wneud trefniadau angladdol yn unrhyw ffordd?**

Mae hyn yn annhebygol. Mae gan deuluoedd ar hyn o bryd bum diwrnod gwaith o ddyddiad y farwolaeth i gofrestru marwolaeth. O dan y trefniadau newydd bydd ganddynt bum diwrnod o'r dyddiad y bydd yr archwilydd meddygol yn cadarnhau achos y farwolaeth. Bydd yr archwilydd meddygol yn edrych ar farwolaethau yn fuan iawn, fel rheol o fewn dau ddiwrnod gwaith. Oherwydd y bydd proses yr archwilydd meddygol hefyd yn disodli proses y ffurflen amlosgi, efallai y bydd yn lleihau'r amser mewn llawer o achosion.

### **Faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r archwilydd meddygol adolygu marwolaeth a chael trafodaeth gyda'r teulu?**

Hysbysir swyddfa'r archwilydd meddygol cyn gynted ag y bo modd am farwolaeth a bydd yntau yn edrych arni y diwrnod hwnnw neu'r diwrnod canlynol. Os bydd y farwolaeth yn digwydd y tu allan i oriau gwaith, bydd yr archwilydd meddygol yn edrych arni y diwrnod gwaith nesaf neu'r diwrnod dilynol. Bydd yr archwilydd meddygol neu ei swyddog yn cysylltu â'r teulu yn ystod y cyfnod hwn. Fe fydd yna system ar-alwad fydd yn gallu ymdrin â thystysgrifau y mae'n rhaid eu rhoi ar frys y tu allan i oriau cyffredin, er enghraifft, am resymau crefyddol neu i hyrwyddo rhoi organau.

### **Beth os bydd yr archwilydd meddygol yn anghytuno â'r achos marwolaeth y mae'r meddyg oedd yn gweini wedi ei roi ar y dystysgrif?**

Efallai y bydd yr archwilydd meddygol yn canfod nad yw'r achos marwolaeth a awgrymwyd gan y meddyg oedd yn gweini yn cael ei gefnogi gan y nodiadau meddygol, neu efallai y bydd yn ystyried bod y meddyg wedi esgeuluso peth gwybodaeth. Bydd rhaid i'r archwilydd meddygol drafod y testunau pryder gyda'r meddyg a gallai hyn arwain at newid y dystysgrif neu gyfeirio'r farwolaeth i sylw'r crwner.

### **Fydd rhaid i deuluoedd dalu am y gwasanaeth hwn?**

Bydd, mae'n debyg y bydd yna ffi am wasanaeth yr archwilydd meddygol. Rydym yn ymgynghori'n benodol ynglŷn â hyn ac nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud ynghylch yr union swm. Ar hyn o bryd, mae yna ffi amlosgi yn cael ei chodi ar deuluoedd (£184) a chaiff hon ei dileu dan y trefniadau newydd. Bydd y ffi newydd am wasanaeth yr archwilydd meddygol yn sicr yn llai na'r ffi amlosgi bresennol ac felly oherwydd bod y mwyafrif o bobl yn dewis amlosgi, bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu llai nag y maent yn awr. Mae'n golygu y bydd rhaid i bobl sy'n dewis claddu dalu ffi lle nad oes un ar hyn o bryd, ond cânt y tawelwch meddwl fod yr archwilydd meddygol wedi archwilio achos marwolaeth eu perthynas.

### **Am beth y bydd y ffioedd yn talu?**

Mae'r ffi yn daladwy am i'r archwilydd meddygol graffu a chadarnhau achos y farwolaeth. Bydd y system newydd yn talu amdani ei hun ac ni ellir gwneud elw o'r ffioedd. Telir rhai o gostau sefydlu'r system gan Lywodraeth y DU. Wedi hynny, y ffioedd fydd yn talu am gostau rhedeg y gwasanaeth.

### **Fydd y gost yr un fath lle bynnaq y byddwch yn marw yng Nghymru?**

Bydd, y bwriad yw cael un ffi ar gyfer Cymru.

### **Sut caiff y ffi ei chasglu?**

Hoffem i'r taliad fod mor hawdd ag sydd modd ac felly, yn ddelfrydol, byddai'n cael ei chasglu yr un pryd ag y byddai costau'r angladd yn cael eu talu. Rydym yn archwilio'r gwahanol ddewisiadau ar gyfer talu'r ffi a chaiff hyn gyhoeddusrwydd eang.

### **Fyddai trefnwyr angladdau yn gallu casglu'r ffi?**

Mae hwn yn rhywbeth yr hoffem ei drafod gyda threfnwyr angladdau fel rhan o weithredu'r trefniadau newydd yng Nghymru.

### **Pam na all y Llywodraeth ysgwyddo cost gwasanaeth yr archwilwyr meddygol, yn hytrach na gosod ffi ar y cyhoedd – oni fyddai hyn yn rhatach yn y pen draw?**

Mae Llywodraeth y DU yn darparu'r costau sefydlu ond nid oes modd i'r costau rhedeg gael eu talu'n ganolog. Oherwydd y bydd y gwasanaeth newydd o fudd i bawb, yna mae'n decach os bydd pawb yn cyfrannu at gostau'r gwasanaeth drwy ffi. Ni fydd elw o'r ffi, a chedwir y costau gweinyddol i lawr i'r eithaf.

### **Beth os caiff marwolaeth fy mherthynas ei chyfeirio at y crwner ac felly na fydd yn derbyn sylw'r archwilydd meddygol – fydd rhai i mi dalu'r ffi er hynny?**

Nid oes ffi am farwolaethau lle mae'r crwner yn rhoi tystysgrif marwolaeth. Gall gweithgareddau'r crwner olygu ymchwiliad helaeth, amser ychwanegol ac arwain at gwest yn aml a chaiff hyn ei gyllido gan y llywodraeth ganolog. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i'r crwner godi ffi am y gwasanaeth hwn.

### **Fydd cynllun angladd a dalwyd ymlaen llaw yn cynnwys cost y ffi?**

Mae'n anodd dweud gan y gall cynlluniau angladdau fod yn wahanol. A siarad yn gyffredinol, bydd digon o arian mewn cynlluniau angladdau, sy'n cynnwys y ffi amlosgi bresennol, i dalu ffi'r archwilydd meddygol.

### **Pwy fydd yn gyfrifol am benodi'r archwilwyr meddygol?**

Byrddau iechyd lleol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am benodi archwilwyr meddygol a swyddogion archwilio meddygol. Rydym yn awgrymu yn yr ymgynghoriad y dylai'r byrddau iechyd lleol wneud hyn drwy ddod ynghyd mewn un pwyllgor i redeg un gwasanaeth ar gyfer Cymru.

### **Pwy fydd yn cyflawni swyddogaeth yr archwilydd meddygol?**

Rhaid i archwilwyr meddygol fod yn uwch ymarferwyr meddygol cofrestredig gyda phum mlynedd o brofiad o leiaf. Rhaid iddynt fod yn meddu ar ddigon o wybodaeth feddygol a statws uwch i roi iddynt yr awdurdod i graffu ar yr achos marwolaeth a awgrymwyd a dod i benderfyniad. Rhaid iddynt gwblhau peth hyfforddiant cyn bod yn gymwys i wneud cais, a hyfforddiant pellach unwaith y byddant wedi eu penodi.

Mae llawer o staff clinigol yng Nghymru eisoes wedi cymryd rhan mewn craffu ar achosion marwolaeth mewn ysbytai fel rhan o system a elwir yn Adolygiad Marwolaethau. Efallai y byddai gan rai o'r meddygon hyn ddiddordeb mewn gwneud cais am swyddi archwilwyr meddygol. Efallai y bydd meddygon teulu a meddygon eraill hefyd yn dymuno gwneud cais.

### **Rwyf wedi clywed bod prinder meddygon yng Nghymru – a fydd cyflwyno archwilwyr meddygol yn gosod mwy o bwysau ar y system?**

Nid ydym yn disgwyl y bydd llawer o broblemau ond bydd angen rheoli'r broses o gyflwyno'r archwilwyr meddygol yn ofalus fel na fydd yn cael effaith anffafriol ar weithlu'r gwasanaeth iechyd. Disgwylwn i'r rhan fwyaf o'r archwilwyr meddygol fod yn gweithio'n rhan-amser, a dylai meddygon fedru ffitio'r swyddogaeth i mewn gyda gwaith arall.

### **Os bydd archwilydd meddygol hefyd yn gweithio i'r bwrdd iechyd fel meddyg, sut gall ef/hi fod yn annibynnol?**

Mae swyddogaeth yr archwilydd meddygol yn gwbl annibynnol o fewn y bwrdd iechyd ac ni all neb ymyrryd â'r penderfyniadau a wneir gan yr archwilydd meddygol. Os gofynnir i'r archwilydd meddygol edrych ar farwolaeth i rywun y mae ef neu hi yn ei adnabod, neu os oes ganddo ef neu hi berthynas agos â'r meddyg dan sylw, yna ni all yr archwilydd meddygol ddelio â'r achos. Mae hyn wedi ei egluro yn y

rheoliadau. Mae meddygon hefyd yn ddarostyngedig i'w cod ymarfer proffesiynol hwy eu hunain. Mae'r safleoedd peilot wedi dangos ei bod yn bosibl rhedeg gwasanaeth archwilwyr meddygol annibynnol o fewn y GIG.

### **Beth os byddaf yn anhapus gyda phenderfyniad yr archwilydd meddygol – allwn i ofyn i'r crwner edrych ar y farwolaeth yn ei le?**

Bydd yr archwilydd meddygol yn trafod yr amgylchiadau a'r achos marwolaeth gyda theulu'r ymadawedig er mwyn sicrhau bod y teulu'n deall yr hyn sydd wedi digwydd ac nad oes ganddynt bryderon. Lle bo pryderon heb eu hateb yn parhau ynghylch y farwolaeth, rhaid i'r archwilydd meddygol hysbysu'r crwner, fydd yn penderfynu a oes achos i ymchwilio i'r pryderon hyn. Gall unrhyw berson hysbysu'r crwner am farwolaeth lle bo'r person yn teimlo bod achos y farwolaeth yn anhysbys, neu'n dreisgar neu'n annaturiol, neu wedi digwydd yn y carchar neu yn y ddalfa, drwy ffonio swyddfa'r crwner perthnasol.

Os byddwch yn meddwl bod archwilydd meddygol wedi gweithredu'n anaddas, fe fydd yna system ar gyfer adrodd yn ffurfiol am gwynion fel ag sydd gydag unrhyw feddyg.

### **Sut bydd archwilwyr meddygol yn cael eu galw i gyfrif am ansawdd eu gwasanaeth?**

Bydd angen i archwilwyr meddygol gydymffurfio â safonau perfformiad, a eglurir mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol.

### **Pwy fydd yn cyflawni swyddogaeth swyddogion archwilio meddygol?**

Mae swyddogion archwilio meddygol yn debygol o fod yn staff y gwasanaeth iechyd gyda pheth profiad clinigol neu sy'n gyfarwydd â gwasanaethau profedigaeth, sydd hefyd wedi arfer ymdrin â chofnodion meddygol a siarad â theuluoedd.

### **Fydd y system newydd yn cael unrhyw effaith ar faich gwaith crwneriaid?**

Mae profiad y safleoedd peilot yn awgrymu y bydd llai o farwolaethau ar y cyfan yn cael eu cyfeirio i sylw'r crwner, ond y bydd nifer yr ymchwiliadau gan grwneriaid i achosion cymhleth yn cynyddu. Mae'r canlyniad disgwylidig hwn i'r diwygiadau yn sicrhau bod y marwolaethau cywir yn cael eu cyfeirio at y crwner ac yntau'n ymchwilio iddynt.

### **Sut bydd archwilwyr meddygol yn derbyn ac yn anfon gwybodaeth am y person a'r achos marwolaeth?**

Bydd angen i archwilwyr meddygol weld cofnodion meddygol y person a bydd angen iddynt hefyd allu derbyn ac anfon gwybodaeth arall yn ymwneud â'u swyddogaeth graffu i asiantaethau eraill. Fei rhan o'r gweithredu, byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio o fewn y systemau sydd eisoes yn eu lle yn GIG Cymru er mwyn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i wasanaeth yr archwilwyr meddygol. Cyn belled ag y bo

modd, mae arnom eisiau i'r gwasanaeth fod yn electronig a chadw papur i lawr i'r eithaf.

**Os bydd yn digwydd nad yw teulu/perthynas agosaf yr ymadawedig yn y DU pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu â hwy ynghylch achos marwolaeth?**

Nid yw'r cyfrifoldebau ynghylch hysbysu perthnasau am farwolaeth wedi newid. Ni ddisgwylir i archwilydd meddygol fod yn gyfrifol am dorri'r newyddion drwg am farwolaeth.

Fel rhan o'r broses graffu, bydd yr archwilydd meddygol yn ceisio cael sgwrs ag aelod o'r teulu oedd mewn cysylltiad â'r ymadawedig yn ddiweddar, sydd eisoes yn gwybod am y farwolaeth. Os bydd hynny'n golygu rhywun sydd dramor, yna gwneir ymdrech i siarad â'r person hwnnw.

**Beth os bydd perthynas yn marw yn Lloegr...neu dramor... ond i gael ei amlosgi yng Nghymru? Fydd y ffaith fod y farwolaeth wedi digwydd yn Lloegr/dramor yn golygu yr ymdrinnir â'r mater yn wahanol?**

Os bydd rhywun yn marw yn Lloegr, bydd yr un drefn o graffu gan archwilydd meddygol yn cael ei dilyn. Os bydd yn marw y tu allan i Gymru neu Loegr dilynir y prosesau lleol. Os bydd yn marw y tu allan i'r DU bydd y crwner yn ymchwilio i'r farwolaeth pan ddeuir â'r corff yn ôl i Gymru, os bydd achos y farwolaeth yn anhysbys, neu yn dreisgar neu annaturiol, neu os digwyddodd yn y carchar neu yn y ddalfa yn y wlad arall honno.